CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. S. Wayne Roberts 01745 890845
Golygydd: wayne.roberts1058@btinternet.com
Medi 2014 **Rhif 049**

Cyfnod o deimladau cymysg ydy'r adeg yma i'n pobl ifanc. Canlyniadau TGAU a Lefel A ag amser i wneud penderfyniadau fydd yn gosod cwrs eu bywyd o hyn ymlaen.
LLongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant a hwyl fawr yn y brifysgol neu byd gwaith, bethbynnag fydd y dynged.
Cyfnod hefyd y sioeau a cyfle inni ryfeddu at ddawn arbennig amryw o'n haelodau a'u gallu i greu campweithiau o waith llaw ardderchog.

Pan ddaw'r Cadwyn yma i'ch llaw fe fydd hi'n amser meddwl am dymor yr Hydref eto, a cyfle inni gymdeithasu mewn cyfarfodydd a gweithgareddau, a mwynhau profiadau a sgyrsiau difyr.

Erbyn hynny mi fyddai wedi ymweld a'r Sgwar Coch ym Moscow a prydferthwch St Petersberg, ac yn edrych ymlaen i rannu profiadau'r daith.

Awst 31 Cofiwch am Gyngerdd Capel y Glyn yn Y Fron am 7-30 hefo Pobl Ifanc dawnus yr ardal o dan ofal Brenda Jones.

CALENDR MEDI 2014

Medi 2 Cytun Dinbych am 6-00 yn y Santes Fair
Medi 16 Taith y Cylch Cinio i Plas Glyn y Weddw a Pwllheli.
Medi 17 Chwiorydd y Fron a'r Brwcws
Taith i Seland Newydd hefo Dr Hywel Watkins
Medi 18 Taith Gerdded Llwybr Tyrnog
Medi 27 FFair y Fron yn Eirianfa am 10-00
Medi 29 Pwyllgor Gweithgareddau yn y Fron am 7-00
Rhaghysbysiad
Hydref 2 Diolchgarwch Capel Bodffari am 2-00
Parch Gareth Roberts,Dinbych.
Hydref 5 Oedfa Brofiad am 3-30 yng Nghwmni
Mr Voyle ar drothwy ei Benblwydd yn 90oed.

ASTUDIAETH FEIBLAIDD.

Bydd yr Astudiaeth yn ail gychwyn yn Lleifior pnawn Dydd Mercher Hydref 1af am 1-30 yn Lleifior.

DIOLCH

Dymunaf ddiolch yn gywir iawn i bawb am y cardiau, negeseuau ffôn , anrhegion a'r ymweliadau a mi yn ystod fy mhenblwydd fis gorffennaf. Cefais diwrnod i'w gofio ymysg y teulu a'r ffrindiau ar y pnawn mercher a dwi'n gwerthfarogi'r cyfan.
Hefyd diolchaf yn ddiffuant i'r Parch Wayne Roberts am baratoi te hyfryd ar y pnawn Iau yn Festri'r Capel Mawr ynghyd a'r merched fu'n helpu. Unwaith eto, profiad braf iawn oedd cael bod yn eich mysg unwaith eto a diolch i bawb a ymunodd a ni. Pleser o'r mwyaf oedd cael sgwrsio gyda chi a c rwy'n gwerthfawrogi'r holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag ataf.
Diolch yn fawr iawn. Emrys Evans.

YR EGLWYSI.

Pwyllgor Swyddogion y Fro
Oherwydd fy mod yn cael triniaeth ar Fedi'r 16eg
Fe gynhelir y Pwyllgor bythefnos yn hwyrach na'r dyddiad a nodwyd Medi'r 21ain ar y 6ed o Hydref am 7-00 yn y Dyffryn.

BRWCWS

Llywydd y Mis: Rhianwen williams.
Organydd: Edna Williams.
7fed Ys 10-00 Mr Glyn Williams 2-00
14eg Ys 10-00Parch R Glyn Jones 2-00
21ain Ys 10-00Parch R O Jones 2-00
28ain Ys 10-00 Parch Christopher Prew 2-00

Cofion
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Carolyn Thomas yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Walton ac i'r aelodau sydd ddim mewn iechyd i ddod i'r Oedfaon. Rydych yn ein meddyliau a'n gweddiau.

Bedydd
Prynhawn Sul, Gorffennaf 13 bedyddiwyd Joshua Wýr bach Gwenda Jones.

Trip yr Ysgol Sul
Pawb i gyfarfod yn Nhý Mawr Wybrnant, Penmachno am 11-00 y bore dydd Sadwrn Medi'r 6ed.

BODFARI

14eg 10-00 Celfyn Williams, Groes.
21ain

DYFFRYN

Llywydd y Mis:Tecwyn Roberts
7fed 11-15Parch Pryderi Llwyd Jones
14eg 10-00 Cyfarfod Gweddi
21ain 10-00 Ymuno yn Nhrefnant
28ain 10-00Parch Nerys Tudor

GELLIFOR

7fed 10-00 Parch Pryderi Llwyd Jones
14eg 5-30Ysgol Sul i bawb.
21ain
28ain 11-15 Parch Nerys Tudor

Nos Wener Medi'r 5ed Cynhelir y Swper Safari.

PENTRE

7fed	9.30	-	Mr Arwel Roberts
14eg	9.30	-	Parch Bernard Thomas – Prion yn ymuno.
21ain	9.30	-	Ysgol Sul – Testun – Ananias a Saffeira, Actau 5
28ain	9.30	-	Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant

Diolch i bawb fu'n brysur yn y te pnawn yn ystod Mis Gorffennaf ag i'r rhai a gefnogodd y pnawn, gwnaethom elw o £521.00 tuag at y capel.

CYDYMDEIMLO

Trist iawn oedd colli Mair yn frawychus o sydyn,'rydym yn anfon ein cofion a'n cydymdeimlad i Mrs Ceridwen Griffiths, Machno ar teulu i gyd yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Dei a Mair, Cwm Parc am ddod yn hen -daid a hen-nain i Freddie, wyr bach i Gwenda eu merch

I Buddug a David Cope (Glan Aber) ar enedigaeth eu mab bach Gwion William, ac i Geraint a Glenys Pentre Pella am ddod yn daid a nain iddo

I Morfydd Evans ar ddod yn hen-nain i Alffie, mab bach i'w wŷr Philip a Siwan

Dymuniadau gorau i'r teuluoedd i gyd, a phob bendith

CYMDEITHAS

Noson gyntaf o'r tymor fydd Nos Wener 11eg o Hydref, bwffe a adloniant yng nghwmni Nia Wyn Jones gyda Aelwyd Menlli. Pris £5. Fe fydd Capeli Tref dinbych yn ymuno hefo ni ar y noson yma.

TREFNANT

Llywydd y Mis - Bet Roberts
7fed 10.00 Mr Gron Ellis 11.00 YS Oedolion
3.00 Mr Gron Ellis
Blodau Catrin Jones
14eg 10.00 Parch Tudur Rowlands 11.00 YS Oedolion
3.00 Parch Tudur Rowlands
Blodau Eileen Humphreys
21ain 10.00 Parch Harri Parri 11.00 YS Oedolion
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau Gwen Roberts
28ain 10.00 Bugail Bedydd Parch. Wayne Roberts
gyda phaned i ddilyn
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl.
Blodau Glynwen Davies
CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Byddwn yn ail ddechrau Pnawn Llun, Medi 22ain. am 2.00pm Croeso cynnes i bawb - dewch am sgwrs a phaned yn ogystal ag addoliad, cyfle i wneud gwaith crefft a chwmni difyr am rhyw ddwyawr.

DYMUNIADAU GORAU Mae nifer o aelodau wedi bod yn anhwylus yn ystod y misoedd diwethaf – pob dymuniad da i bob un ohonoch. Rydym yn hynod o falch fod Alun Hughes yn parhau i wella wedi triniaeth llawfeddygol yn Ysbyty Walton, Lerpwl, - amynedd nawr Alun!

LLONGYFARCHIADAU i bawb gafodd llwyddiant mewn arholiadau, eisteddfod neu sioe yn ystod yr haf.

PRION

7fed 9.30 - Mr Arwel Roberts
Ymuno yn y Pentre
14eg 9.30 - Parch Bernard Thomas –
Ymuno yn y Pentre.
21ain 10.00 - Cyfarfod Gweddi.
28ain 9.30 - Diolch y Plant yn y Pentre.

TREMEIRCHION

7fed 11-15 Mr Gron Ellis
14eg 11-15 Parch Tudur Rowlands
21ain 11-15 Parch Harri Parri
28ain 10-00 Ymuno yn Nhrefnant.

Y Capel Mawr

Llywydd y Mis: - CM - Mrs Cheryl Williams
7fed 5-30 Mr Glyn Williams, Abergele
Organydd Mrs Doris Williams
14eg 10-00 Y Parch. R. Glyn Jones, Llanrwst
Organydd Mrs Catrin Warren
Blodau Mrs Dorothy Bartley, 32 Trewen
21ain 5-30 Y Parch. R. O. Jones
Organydd Mrs Dorothy Rogers
28ain 10-00 Y Parch. Christopher Prew,
Organydd Mrs Doris Williams.
Blodau Mrs Doris Williams, 7 Lôn Nant

FFAIR HAF
Cynhaliwyd Ffair Haf yn Festri'r Capel Mawr ar fore Sadwrn, Gorffennaf 26ain, a chodwyd £280 tuag at at goffrau'r capel. Diolch i Mrs Nerys Ann Roberts a'i thîm am fod yng ngofal y trefniadau, a diolch i bawb a gefnogodd y fenter mewn unrhyw fodd.

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn â Mr Ifor John Jones, 3 Cwm Arthur, yn ei brofedigaeth o golli'i fam. Hefyd Eurig a Bethan yn eu profedigaeth o golli'i nain.

CYMDEITHAS Y DRE
Fe fyddwn ni yn ymuno hefo Llanrhaeadr dechrau Hydref am 6-30 ar gyfer Cyfarfod Agoriadol , Bwffe ac Adloniant o dan arweiniad Nia Wyn Jones
Mwy o fanylion mis nesa.

Fron

Llywydd y mis; John Glyn Jones.
7fed 10-00 Mr Glyn Williams Abergele.
Blodau Eiri Jones
Organnydd: Julie Howatson Broster Mair Roberts
14eg 5-30 Parch R Glyn Jones Llanrwst.
Blodau Jois Snelson
Organnydd:Eiri Jones Gwyneth Morris
21ain 10-00 I'w drefnu.
Blodau Mrs Dilys Davies
Organydd:Iona Edwards Mair Roberts
28ain 5-30 Parch Christopher Prew
Blodau Mrs Helena Morris
Organydd: Megan Williams Gwyneth Morris

CHWIORYDD Y FRON a'r BRWCWS
Noson Agoriadol Nos Fercher Medi'r 17eg
Taith i Seland Newydd yng nghwmni Dr Hywel Watkins
Gwasanaeth Dechreuol Dilys Davies
Diolchiadau Mair Roberts
Paned Eiri Jones a Gwenda Owen.

FFAIR HYDREF
Bore Sadwrn Medi'r 27ain am 10 o'r gloch yn Eirianfa.

NEWID DYDDIAD
Cyngerdd Côr Alaw yn awr ar Dachwedd 30ain.

NEGES Medi GAN NESTA

Roedd rhaid imi gymeryd pethau'n haws yn ystod yr haf yma, gan bod yr Hen Eryr wedi dychwelyd –a minnau'n tybied fy mod wedi cael un dôs unwaith ac am byth a bod hynny'n fy nghadw'n iawn. Ond na, dim smotiau oedd wedi codi o achos yr haul a'r grwes oeddynt, ond dôs golew o'r aflwydd gyda'r holl boen sy'n eu dilyn. Ond mi ddarganfyddes ffordd naturiol o'i leddfu a chael lleshad sef defnyddio olew y lafant, teatree, a'r hessop wedi ei gymysgu ac eli, a'i rwbio ar wadnau'n rhaed dros nos ac ar yr asgwrn cefn bob bore – ryw fath o *Aromatherapi,* fu'n effeithiol iawn i mi . Bu llai o fynd a dod a mwy o ddarllen a pharatoi a threfnu., er mwyn gwneud yn siwr fy mod yn holliach erbyn ail-gydio yn yr awennau. Felly rwyf wedi bod yn cymeryd camau bach wrth ail gydio yn y gwaith, yn union fel mae'n Cynllun Camu , gafodd ei lawnsio yn y Gymanfa Gyffredinnol yn awgrymu.

Eto cefais fendith yn

Dathlu penblwydd Emrys Evans

Arwain Hyfforddiant mewn swydd Gweinidogion am CWM a'r T*oolkit*

Ymweld a'r' rhai'n gaeth yn eu tai a'r cartrefi preswyl

Helpu yn y Banc Bwyd

Helpu ar y Bwrdd Cytun yng Ngharnifal Dinbych

Cymeryd rhan yng Nghyfarfod Gweddi Gweinidogaeth Iachau Cytun

Cael Hyfforddiant i Arweinwyr Timau *Agor y Llyfr* yn Bow Street

Mynychu Ysgol Haf y Weinidogaeth Iachau yn Cefn Lea a'r Encil yn Nhrefeca

Paratoi at *Agor y Llyfr* yn Nhymor yr Hydref

Cofiwch bod croeso ichi ymuno gyda mi yn Nghyfarfod Cytûn yn Eglwys Santes Fair am 6.00

Nos Fawrth Medi'r 2ail lle bydd Marko Kreft yn annog y dref i gefnogi'r rhai sy'n dioeddef o Dementia drwy ddod yn *Angylion Piws,* a'r Cyfarfod Gweddi Cytun yn Eglwys Santes Fair 12.00 ar ddydd Mawrth, Medi 9fed a Chyfarfod Gweddi Gweinidogaeth Iachau Cytun am 7.00 yn Sant Thomas nos Lun Medi'r 15fed. A bydd diwrnod i rai sydd a diddordeb yn y Cynllun newydd gan y Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid CAMU yng Ngholeg y Bala Hydref 18fed o 10.15-3.30. Os hoffech ddod ffoniwch: 01745 822854/07870323790, neu gallwch fy e-bostio nestamarydavies@gmail.com

Pob Bendith
Nesta